# Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Cardiac Health Diagnostics Ltd

Dyddiad yr arolygiad: 10 Ionawr 2018

Dyddiad cyhoeddi: 15 Mai 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**

ISBN Digidol 978-1-78903-783-8

© Hawlfraint y Goron 2018

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ..... 5
2. Crynodeb o'n harolygiad ..... 6
3. Yr hyn a ganfuom ..... 8

    Ansawdd profiad y claf ..... 9

    Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ..... 13

    Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ..... 17

4. Beth nesaf? ..... 20
5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau  annibynnol ..... 21

    Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ..... 22

    Atodiad B – Cynllun gwella ..... 23

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Cardiac Health Diagnostics Ltd ar 10 Ionawr 2018.

Roedd ein tîm arolygu yn cynnwys un arolygydd AGIC, un adolygydd cymheiriaid clinigol, ac un adolygydd lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Roedd y gwasanaeth wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i ddarparu gwasanaeth sgrinio iechyd cardiaidd symudol i bobl dros 5 oed ond yn bennaf ar gyfer pobl 16 - 35 oed ac yn achlysurol yn hŷn.

Gwelwyd fod trefniadau i roi digon o wybodaeth i gleifion ynglŷn â'r hyn i'w ddisgwyl gan y gwasanaeth.

Nid oedd unrhyw gleifion yn mynychu ar gyfer sgrinio ar adeg ein harolygiad, felly buom yn siarad â chleifion a ddewiswyd ar hap dros y ffôn i gael barn cleifion yn uniongyrchol am y gwasanaeth roeddent wedi ei dderbyn.

Defnyddiodd y gwasanaeth holiaduron cleifion hefyd i gael adborth cleifion ac roedd y sampl a welsom yn cynnwys sylwadau cadarnhaol am y gofal a ddarperir yn y gwasanaeth.

Roedd rhai meysydd wedi'u nodi'n feysydd i'w gwella ond, yn gyffredinol, rydym yn fodlon bod y gwasanaeth yn bodloni'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a ddarperir
- Cafodd gwybodaeth am y gwasanaeth ei rhoi a beth y dylai cleifion ei ddisgwyl
- Roedd cofnodion cleifion yn fanwl ac yn cael eu storio'n ddiogel
- Roedd tystiolaeth o rywfaint o waith archwilio, er bod y gwasanaeth ond wedi bod ar agor am gyfnod byr
- Roedd tystiolaeth o reolaeth dda, agored a thryloyw

Rydym yn argymell y gallai’r gwasanaeth wella’r canlynol:

- Rhai mân newidiadau i'r ddogfennaeth

- Datblygu cynllun marchnata a chytundebau gweithio gyda rhanddeiliaid
- Datblygu Polisi Dim Ysmygu ar gyfer staff
- Datblygu matrics hyfforddi cadarn i gofnodi hyfforddiant cyfredol a sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi yn y meysydd gorfodol gan gynnwys hyfforddiant hebryngwyr
- Datblygu swyddogaethau a chyfrifoldebau ymhellach i sicrhau atebolrwydd clir i gyfarwyddwyr.

Gwnaethom nodi toriadau rheoleiddiol yn ystod yr arolygiad hwn ynghylch - diwygiadau cyffredinol a datblygu dogfennau.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Cardiac Health Diagnostics Ltd wedi'i gofrestru i ddarparu asiantaeth feddygol annibynnol yn Ystafell 508, Canolfan Fusnes y Pumed Llawr, Sefydliad Gwyddorau Bywyd 2, Prifysgol Abertawe, Campws Singleton, Abertawe, SA2 8PP.

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu gwasanaethau sgrinio iechyd cardiaidd symudol i bobl dros 5 oed. Ni ddarperir llety dros nos.

Cofrestrwyd y gwasanaeth gyntaf ar 6 Mai 2016.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys 5 Cyfarwyddwr, (un ohonynt hefyd yw'r Rheolwr Cofrestredig) a chardiolegwyr a ffisiolegwyr rhan amser.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Yn gyffredinol, roeddem yn fodlon bod y clinig yn cynnig gwasanaeth sy'n diwallu anghenion y cleifion mewn ffordd ddiogel a phroffesiynol.

Roedd y cleifion yn wybodus cyn unrhyw ymgynghoriad ac roedd eu barn ar y gwasanaeth yn gadarnhaol iawn ac yn foddhaol.

Gan nad yw cleifion yn mynychu'r gwasanaeth ar gyfer sgrinio, gwnaethom ofyn am enwau a manylion cyswllt pedwar o gleifion a ddewiswyd ar hap i siarad â nhw ar y ffôn. Gwnaethom ofyn i'r Rheolwr Cofrestredig ffonio'r cleifion cyn ein galwad i gael caniatâd. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Atal fy nghyflwr rhag dirywio trwy wneud diagnosis o ddiffyg anadl"*
>
> *"Ni allaf weld bai ar y gwasanaeth.Gwasanaeth ataliol ardderchog i'r teulu cyfan"*
>
> *"Gwasanaeth rhagorol"*
>
> *"Anhygoel, calonogol, ni allaf ei ganmol ddigon."*

### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Trwy sgwrs â'r Rheolwr Cofrestredig a'r Unigolyn Cyfrifol (y person sy'n cynrychioli'r cwmni) dywedwyd wrthym nad oes taflenni yn cael eu cynnig i gleifion ar hyn y bryd sy'n hyrwyddo ffordd iach o fyw, fel bwyta'n iach, ymarfer corff neu roi'r gorau i ysmygu. Yn ogystal, nid oedd cofnodion y cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn dangos tystiolaeth bod meddygon yn trafod dewis iach o fyw â'r claf yn ystod yr ymgynghoriad. Byddai'n fuddiol i'r gwasanaeth gynnig gwybodaeth i gynorthwyo cleifion i wneud dewisiadau iach o ran dull o fyw oherwydd natur y sgrinio.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r gwasanaeth gynnig gwybodaeth hybu iechyd yn eu clinigau sgrinio a dylai meddygon fod yn cofnodi sgyrsiau/cyngor sy'n cael ei roi yn ystod eu hymgynghoriadau

Byddai'r gwasanaeth yn elwa o rifo cofnodion cleifion yn ddilyniannol â thudalen flaen yn dangos manylion cleifion yn glir.

## Urddas a pharch

Roeddem yn fodlon bod cleifion yn derbyn eu hymgynghoriadau gyda'r meddygon mewn man preifat i ffwrdd o'r man aros. Y rheswm am hyn yw y gwelsom fod gofynion y lleoliad sgrinio y gofynnodd y gwasanaeth amdanynt cyn cytuno i gynnal clinig mewn lleoliad. Roedd y meini prawf yn cynnwys; pedair ystafell breifat oddeutu (7 troedfedd x 6 troedfedd); ystafell breifat ar gyfer ymgynghoriadau; man aros ar gyfer 15-20 o bobl; derbynfa; a rhaid i'r lleoliad gydymffurfio â'r rheoliadau mynediad anabl, diogelwch, iechyd a diogelwch a thân. Yn ogystal, gofynnir i'r canlynol gael ei ystyried; sgrinio, toiledau, cyfleusterau bwyd a diod, pa mor hawdd yw cyrraedd y lleoliad ar y ffordd a'r rheilffordd, parcio digonol, llwytho a dadlwytho offer yn ddiogel.

Cadarnhaodd pob claf, heb eithriad, a wnaeth ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd ar y ffôn fod y gofal a'r driniaeth a ddarperir yn rhagorol.

## Gwybodaeth a chydsyniad cleifion

Gwelsom yng nghofnodion electronig y cleifion, a chawsom ffurflen wag i'w darllen, a oedd yn dangos bod cleifion yn cael gwybodaeth glir ac yn rhoi caniatâd i driniaeth cyn unrhyw ymyriad sgrinio neu ymgynghoriad â'r meddygon. Fodd bynnag, nid oedd y wybodaeth hon bob amser yn cael ei chadw yn y copïau papur o gofnodion y claf. Gwnaethom awgrymu bod y gwasanaeth yn adolygu'r holl ffeiliau papur i sicrhau bod ffeiliau electronig a phapur yn dal yr un wybodaeth yn union. Hefyd darllenom y wybodaeth a ddarperir ar gyfer y ddwy dechneg sgrinio a gynigir e.e. Electrocardiogram[1] ac

[1] Electrocardiograffeg yw'r broses o gofnodi gweithgaredd electronig y galon dros gyfnod o amser gan ddefnyddio electrodau a osodir ar y croen.

Ecocardiogram[2]. Roedd y ddwy yn hawdd i'w deall ac yn addysgiadol iawn. Gwnaethom awgrymu y dylai'r gwasanaeth ychwanegu'r broses a fydd yn dilyn os canfuwyd unrhyw annormaledd at y daflen Ecocadiogram Byddai hyn yn unol â'r wybodaeth a gynigir eisoes yn y daflen Electrocardiogram.

Gwnaethom drafod argaeledd y wybodaeth hon mewn unrhyw iaith arall gan gynnwys y Gymraeg a dywedwyd wrthym ar hyn o bryd mai yn Saesneg yn unig yr oedd y wybodaeth ar gael.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod cofnodion electronig a phapur yn cadw yn union yr un cofnodion

Byddai cleifion yn elwa o wybodaeth am y broses sy'n dilyn canfod unrhyw annormaleddau ar ôl sgrinio ecocardiogram.

Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod ffurflenni sgrinio a deunyddiau gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd eraill, gan gynnwys y Gymraeg.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Gwnaethom edrych ar y llythyrau cyfeirio at feddygon teulu cleifion a chanfuom eu bod yn gadarn ac yn cynnwys canfyddiadau'r Cardiolegydd, copi o'r Electrocardiogram a'r ecocardiogram (pan oedd y ddau'n cael eu sgrinio). Roedd y dyddiadau ar y llythyrau yn dangos bod y rhain yn cael eu hanfon yn brydlon.

Dywedodd pob claf a atebodd y cwestiynau ar y ffôn wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am y sgrinio, y risgiau, costau a goblygiadau unrhyw annormaleddau a ganfuwyd.

### Cynllunio a darparu gofal

[2]Mae ecocardiogram - sy'n cael ei adnabod hefyd fel 'echo' - yn defnyddio tonnau sain i greu darlun manwl o'ch calon. Mae'r echo yn edrych ar strwythur eich calon a falfiau'r galon, ac mae hefyd yn rhoi gwybodaeth am swyddogaeth a gweithrediad pwmpio eich calon

Gwnaethom edrych ar sampl ar hap o bump o gofnodion cleifion a chanfuom fod y wybodaeth yn glir ac yn foddhaol ar gyfer y broses ymgynghori.

Ni welsom unrhyw asesiadau risg unigol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a allai fod angen cymorth, e.e. mynediad ar gyfer cadair olwyn, problemau cyfathrebu, cais am gyfleuster hebryngwr. Roedd y Rheolwr Cofrestredig a'r Unigolyn Cyfrifol yn agored i'r awgrymiadau hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau bod asesiad risg yn cael ei wneud cyn y sgrinio a bod cyfleusterau hebryngwyr yn cael eu cynnig yn glir.

## Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Gwelsom dystiolaeth o'r holiaduron adborth cleifion a gafodd eu rhoi i bob claf ar ôl mynychu'r clinig. Gwelsom hefyd fod y wybodaeth wedi'i choladu ar ffurf graff ac roedd yn hawdd ei deall. Tynnwyd sylw at y meysydd i'w gwella Yn anffodus, yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi meysydd i'w gwella tebyg na chawsant eu gweithredu o'r dadansoddiad adborth megis gwybodaeth a ffurflenni yn Gymraeg neu'n ddwyieithog a chael copi o'r canllaw i gleifion.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Roeddem yn fodlon bod y clinig yn cynnig triniaeth ddiogel a sensitif sy'n cael ei theilwra i fodloni anghenion unigol cleifion.

Roedd y staff wedi derbyn yr hyfforddiant priodol ar gyfer y gwasanaeth roeddent yn ei ddarparu.

### Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Gwnaethom edrych ar sampl o bum cofnod cleifion ac roeddem yn fodlon bod y cynnwys clinigol yn cynnig gwybodaeth ddigonol at ddiben yr ymgynghoriad.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth gofrestr risg ar gyfer digwyddiadau tebygol a allai effeithio ar y gwasanaeth ac o'r herwydd ar ofal cleifion. Roedd y rhain wedi cael eu graddio yn ôl COG (Coch, Oren, Gwyrdd) ac roeddent yn cynnwys atebion a nodwyd. Roedd hyn yn enghraifft o arfer nodedig.

### Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Roedd polisi rheoli heintiau ar gael a oedd yn rhoi arweiniad boddhaol i atal a rheoli heintiau'n ddiogel. Gwnaethom brofi trwy drafodaeth sut roedd y gwasanaeth yn monitro cyfraddau heintiau a sut roeddent yn rheoli cleifion â heintiau yn enwedig heintiau risg uchel. Roedd yr ymateb yn cyn-fynd â'u polisi. Gwnaethom argymell bod y wybodaeth cyn sgrinio'n cynnwys cwestiwn ynghylch a oes gan glaf haint neu glwyf agored fel y gallai gael ei reoli'n briodol ar ddiwrnod y sgrinio.

Cyfrifoldeb y gwasanaeth oedd offer amddiffyn personol megis ffedogau a menig ac roedd ganddynt adeilad a oedd yn cael ei ddefnyddio i storio'r holl offer. Dywedwyd wrthym fod yr holl chwiliedyddion a pheiriannau yn cael eu sychu â llieiniau gwrthfacteria ar ôl pob claf ac eto ar ddiwedd pob sesiwn.

Nid oeddem yn gallu canfod a oedd staff wedi derbyn hyfforddiant priodol mewn hylendid dwylo ac nid oedd cofnod o ddadheintio (glanhau) o offer a rennir.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r gwasanaeth sefydlu cofnodion hyfforddi mewn rheoli heintiau sy'n benodol i'r gwasanaeth a ddarperir

Mae angen i'r gwasanaeth sefydlu cofnodion glanhau am offer a rennir.

## Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Ni fu unrhyw faterion ynghylch diogelu. Roedd y Rheolwr Cofrestredig wedi mynychu hyfforddiant hyd at lefel 3 ond nid oeddem yn gallu canfod pa hyfforddiant roedd staff eraill wedi ei dderbyn oherwydd diffyg cofnodion. Gwnaethom edrych ar y polisi diogelu a nodi nad oedd manylion cyswllt lleol yn cael eu cadw gyda'r polisi diogelu. Mae angen mynd i'r afael â hyn yn ôl yr awdurdod y mae'r gwasanaeth yn darparu sgrinio. Gwnaethom edrych ar brosesau recriwtio ac roedd staff wedi derbyn y gwiriadau gofynnol cyn dechrau yn y swydd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r gwasanaeth ddiwygio'r polisi diogelu i gynnwys manylion cyswllt yr holl awdurdodau lle mae'n debygol o ddarparu gwasanaeth.

## Offer a systemau diagnostig

Ni chafodd offer ei storio yn y swyddfa ac felly nid oeddem yn gallu gweld yn gorfforol safon yr offer sy'n cael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym gan y Rheolwr Cofrestredig fod y cyfarpar naill ai'n cael ei fenthyg o wasanaeth hyfforddi lleol neu os oedd o dan gontract gan y gwneuthurwr yn newydd sbon ac yn dal i fod o fewn ei gyfnod gwarant. Nid oedd unrhyw gofnodion o gynnal a chadw blynyddol offer gan nad oedd y gwasanaeth wedi'i sefydlu am gyn hired â hynny, ond rydym yn awgrymu bod cofnod yn cael ei gadw o bryd mae offer unigol angen ei ailgalibradu neu wiriadau cynnal a chadw. Dywedwyd wrthym

mewn achos o sefyllfa frys annisgwyl fod Calonnau Cymru [3] bob amser yn bresennol gyda diffibriliwr cludadwy[4]

## Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roeddem yn fodlon bod y gwasanaeth yn cynnig gwasanaeth diogel a chlinigol effeithiol oherwydd gwelsom y manteision i'r cleifion gyda chanfyddiadau cynnar ac atgyfeiriadau am fesurau ataliol.

Gwnaethom edrych ar y polisi maeth a oedd yn nodi bod y gwasanaeth yn cynnig cyngor arbenigol mewn maeth a rheoli pwysau. Gwnaethom ofyn am eglurhad pellach ar bwy oedd yn cynnig y cyngor arbenigol a chafodd ei gytuno, er diogelwch cleifion, gan nad oedd dietegydd yn ymwneud â'r broses sgrinio, y byddai'n cael ei dynnu oddi ar y polisi.

Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth yn cael ei arwain gan ganllawiau NICE [5], Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r gwasanaeth adolygu'r polisi maeth a'i ddiwygio yn ôl yr angen.

## Rheoli cofnodion

Gwelsom fod cofnodion yn cael eu storio mewn amgylchedd diogel. Roedd cofnodion papur yn cael eu storio mewn amgylchedd diogel mewn adeilad

---

[3]Elusen ar gyfer gosod difibrilwyr mewn cymunedau a darparu hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd a diffibriliwr yng Nghymru.

[4]Mae diffibriliwr yn ddyfais sy'n rhoi sioc drydanol egni uchel i'r galon trwy wal y frest i rywun sy'n dioddef ataliad ar y galon.

[5] Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn darparu canllawiau cenedlaethol a chyngor i wella iechyd a gofal cymdeithasol.

storio tra bod y cofnodion electronig ar y cyfrifiadur gyda system gadw briodol oddi ar y safle ar waith.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun mewn perthynas â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.*

Roeddem yn fodlon bod rheolaeth ac arweinyddiaeth gref er bod llinellau cyfrifoldeb o fewn tîm y cyfarwyddwyr yn llai eglur.

Nid oedd y cynllun datblygu gwasanaeth wedi'i orffen. Mae angen ymdrin â hyn er mwyn cynnal parhad a thwf y busnes.

### Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd tystiolaeth o drefniadaeth a rheolaeth gref gyda'r Unigolyn Cyfrifol a'r Rheolwr Cofrestredig yn gweithio'n agos gyda'i gilydd.

Nid oedd unrhyw adroddiadau ysgrifenedig o ymweliad gan yr Unigolyn Cyfrifol gan fod cysylltiad cyson bob dydd â'r busnes. Yn unol â Rheoliad 28, mae angen i'r Unigolyn Cyfrifol ysgrifennu adroddiad trosolwg byr o'r gwasanaeth bob chwe mis. Mae angen cadw'r rhain i'w harchwilio.

Roeddem yn pryderu am y diffyg cyfrifoldebau clir ar gyfer pob Cyfarwyddwr a chafodd hyn ei drafod. Er hwylustod i gyfeirio atynt byddai'n fuddiol pe bai gan bob Cyfarwyddwr gyfrifoldebau dynodedig, a allai oruchwylio meysydd penodol ac yna bwydo gwybodaeth berthnasol i'r cyfarfodydd chwarterol. Roedd y Cynllun Datblygu Gwasanaeth wrthi'n cael ei lunio ac roedd angen cynllun marchnata cadarn i sicrhau cydraddoldeb gwasanaethau ledled Cymru ar yr un pryd â chynnal parhad a thwf y busnes.

Roedd y Datganiad o Ddiben[6] wedi cael ei adolygu ym mis Ebrill 2017 ond nid oedd dyddiad adolygu ar y Canllaw i Gleifion. Roedd y ddwy ddogfen hyn yn cynnwys y wybodaeth berthnasol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r gwasanaeth drefnu cyfarfodydd rheolaidd sy'n cael eu cynnal gan y Cyfarwyddwyr sy'n cael eu cofnodi gyda'r camau i'w cymryd yn cael eu cofnodi er mwyn sicrhau atebolrwydd priodol

Mae angen i'r Unigolyn Cyfrifol ysgrifennu adroddiad trosolwg am statws cyfredol y gwasanaeth bob chwe mis

Mae angen i'r Cyfarwyddwyr amlinellu cyfrifoldeb pob unigolyn o fewn y cwmni.

### Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Ni chafwyd unrhyw bryderon/cwynion oddi wrth gleifion ers i'r gwasanaeth gofrestru. Fodd bynnag, wrth holi cleifion dros y ffôn a fydden nhw'n gwybod sut i wneud cwyn, dywedodd pob un nad oeddent yn gwybod. Gwelsom fod y broses gwyno a chyfeiriad AGIC wedi eu cynnwys yn y Canllaw i Gleifion, ond yn unol â sylwadau cleifion nid oeddent yn derbyn y Canllaw i Gleifion fel rhan o'r drefn yn ystod apwyntiad sgrinio.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau bod Canllaw i Gleifion yn cael ei gynnig i bob claf yn ystod y broses sgrinio. Bydd hyn yn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth gywir am y gwasanaeth a bod gwybodaeth ar gael os ydynt am godi pryder.

### Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Mae staff yn cael eu cyflogi gan y gwasanaeth ar sail ad hoc. Dywedodd y Rheolwr Cofrestredig wrthym fod staff yn derbyn hyfforddiant sy'n briodol i'r meysydd clinigol lle maent yn gweithio yn eu prif gyflogaeth. Nid oedd matrics

[6] Mae datganiad o ddiben ar gyfer busnes yn disgrifio'r hyn rydych chi'n ei wneud, pwy ydych chi, ble rydych chi'n ei wneud ac ar gyfer pwy rydych chi'n ei wneud.

hyfforddi ar gael ac nid oedd ffeiliau staff yn cynnwys copïau o unrhyw hyfforddiant a gafodd ei wneud. Felly ni allai'r Rheolwr Cofrestredig na ni fod yn sicr bod yr holl staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol/diweddaru'n ddigonol ar gyfer y gwaith roeddent i'w gyflawni. Gwnaethon drafod hyn â'r Rheolwr Cofrestredig a chawsom sicrwydd y gofynnid i staff gyflwyno eu cofnodion hyfforddiant i'w copïo. Cawsom ar ddeall y byddai hyn yn cael ei weithredu ar unwaith.

### Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwnaethom edrych ar ffeiliau staff ac roeddem yn fodlon bod yr holl ddogfennau ar gael fel archwiliadau cyflogaeth gychwynnol. Fodd bynnag, ni welsom wiriadau cymwysterau proffesiynol a chofrestriad gyda chyrff priodol wedi'u diweddaru yn y ffeiliau staff megis tystiolaeth o ail-ddilysu meddyg [7] a chofrestriad blynyddol.

Roedd gan yr holl staff adroddiad y gwasanaeth datgelu a gwahardd o waith blaenorol/parhaol. Mae angen i'r Rheolwr Cofrestredig fod yn fodlon nad oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i'r gwiriad ers i'r cais gwreiddiol gael ei wneud amdano.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf am ailddilysu a chofrestru gyda chyrff proffesiynol priodol yn cael eu cofnodi mewn ffeiliau staff

Mae angen i'r gwasanaeth fod yn fodlon bod gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol ac yn ddilys.

[7] Ailddilysiad yw'r broses lle mae'n rhaid i bob meddyg gadarnhau i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ei fod yn gyfredol ac yn addas i ymarfer.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael tua 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000
- Cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011
- Diwallu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd pryderon dybryd ar yr achlysur hwn. | | | |

# Atodiad B – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Mewnosodwch yr enw

## Dyddiad yr arolygiad: Mewnosodwch y dyddiad

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Dylai'r gwasanaeth gynnig gwybodaeth hybu iechyd yn eu clinigau sgrinio a dylai meddygon fod yn cofnodi sgyrsiau / cyngor a roddwyd yn ystod eu hymgynghoriadau.<br><br>Byddai'r gwasanaeth yn elwa o rifio cofnodion cleifion yn ddilyniannol â thudalen flaen yn dangos manylion cleifion yn glir. | 3. Hybu, diogelu a gwella iechyd | Archebu gwybodaeth hybu iechyd gan gyhoeddiadau BHF i'w darparu mewn clinigau sgrinio.<br><br>Ychwanegwch adran at ffurflen ymgynghori cleifion ynglŷn â chyngor iechyd.<br><br>Cyflwynr system rifo i gofnodion cleifion gyda thudalen flaen yn dangos manylion cleifion yn glir. | Shannon Stevens<br><br>Shannon Stevens | 01 Mawrth 2018<br><br>30 Mawrth 2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod cofnodion electronig a phapur yn cadw yn union yr un cofnodion<br><br>Byddai cleifion yn elwa o wybodaeth am y broses sy'n dilyn canfod unrhyw annormaleddau ar ôl sgrinio ecocardiogram.<br><br>Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod ffurflenni sgrinio a deunyddiau gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd eraill, gan gynnwys y Gymraeg. | 9. Gwybodaeth a chydsyniad cleifion | Adolygu'r holl gofnodion electronig a phapur er mwyn sicrhau bod pob un yn union yr un fath.<br><br>Addasu gwybodaeth ecocardiogram i gynnwys y broses sy'n dilyn canfod unrhyw annormaleddau ar ôl y sgrinio ecocardiogram.<br><br>Cyfieithu ffurflenni sgrinio i'r Gymraeg gan ddefnyddio cyfieithwyr o Gymdeithas Broffesiynol Cyfieithwyr Cymru | Shannon Stevens<br><br>Shannon Stevens<br><br>Wedi'i is-gontractio i gorff proffesiynol | 01 Mehefin 2018<br><br>01 Mawrth 2018<br><br>30 Mawrth 2018 |
| Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau bod asesiad risg yn cael ei wneud cyn sgrinio a bod cyfleusterau hebryngwyr yn cael eu cynnig yn glir. | 8. Cynllunio a darparu gofal | Diwygio holiadur meddygol sgrinio i ychwanegu asesiad risg cleifion yn ymwneud â gofynion hygyrchedd a hebrwng. | Shannon Stevens | 01 Mawrth 2018 |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Mae angen i'r gwasanaeth sefydlu cofnodion hyfforddi mewn rheoli heintiau sy'n benodol i'r gwasanaeth a ddarperir | 13. Atal a rheoli heintiau a dadheintio | Creu cofnodion hyfforddi i ddangos tystiolaeth o'r weithdrefn rheoli atal heintiau. | Shannon Stevens | 01 Mawrth 2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Mae angen i'r gwasanaeth sefydlu cofnodion glanhau am offer a rennir. | | Creu cofnodion glanhau i ddangos y broses lanhau ym mhob digwyddiad sgrinio. | Shannon Stevens | 01 Mawrth 2018 |
| Mae angen i'r gwasanaeth ddiwygio'r polisi diogelu i gynnwys manylion cyswllt yr holl awdurdodau lle mae'n debygol o ddarparu gwasanaeth. | 11. Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed | Ychwanegu atodiad i gynnwys manylion cyswllt holl dimau diogelu awdurdodau lleol yng Nghymru. | Shannon Stevens | 01 Mawrth 2018 |
| Mae angen i'r gwasanaeth adolygu'r polisi Maeth. | 7. Gofal diogel a chlinigol effeithiol | Diwygio'r polisi maeth i gael gwared ar gyngor dietegol arbenigol. | Shannon Stevens | 01 Mawrth 2018 |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Mae angen i'r gwasanaeth drefnu cyfarfodydd rheolaidd sy'n cael eu cynnal gan y Cyfarwyddwyr sy'n cael eu cofnodi a bod camau i'w cymryd yn cael eu cofnodi er mwyn sicrhau atebolrwydd priodol | 1 Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd | Cyfarfodydd i gael eu trefnu bob chwarter â'r cyfarwyddwyr, sy'n cael eu cofnodi a bod camau gweithredu'n cael eu cofnodi. | Pob Cyfarwyddwr | O Fawrth 2018 ymlaen |
| Mae angen i'r Unigolyn Cyfrifol ysgrifennu adroddiad trosolwg am statws cyfredol y gwasanaeth bob chwe mis. | | Unigolyn Cyfrifol i ysgrifennu adroddiad trosolwg am y gwasanaeth am y 6 mis | Chris James | 01 Mawrth 2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Mae angen i'r cyfarwyddwyr amlinellu cyfrifoldeb pob unigolyn o fewn y cwmni. | | diwethaf. | | |
| Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau bod Canllaw i Gleifion yn cael ei gynnig i bob claf yn ystod y broses sgrinio. Bydd hyn yn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth gywir am y gwasanaeth a bod gwybodaeth ar gael os ydynt eisiau lleisio pryder. | 23 Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau | Sicrhau bod pob claf yn derbyn copi o'r canllaw i gleifion yn ystod clinigau sgrinio trwy gael nifer o gopïau printiedig wrth law i'w rhoi i bob unigolyn | Shannon Stevens | 01 Mawrth 2018 |
| Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf am ailddilysu a chofrestru gyda chyrff proffesiynol priodol yn cael ei chofnodi yn ffeiliau staff<br><br>Mae angen i'r gwasanaeth fod yn fodlon bod y gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol ac yn ddilys. | 24. Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu | Cysylltu â'r staff sgrinio presennol i gael copïau o'r holl ddiweddariadau dilysu a chofrestru gyda chyrff proffesiynol priodol i'w cofnodi ar ffeil.<br><br>Creu matrics hyfforddi i fonitro hyfforddi, dilysu a chofrestru staff gyda'u cyrff proffesiynol priodol.<br><br>Cynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar yr holl staff meddygol sy'n cael eu defnyddio ar gyfer sgrinio. | Shannon Stevens<br><br>Shannon Stevens | 27 Ebrill 2018<br><br>27 Ebrill 2018 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras):Shannon Stevens**

**Swydd: Cyfarwyddwr a Rheolwr Cofrestredig**

**Dyddiad: 07.02.2018**